# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Mercher, 30 Medi 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol);

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
A. Nicholas, Swyddog Adfywio Gwledig;
M. Pemberton, Cydgysylltydd rhaglen LEADER
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 2.00 pm - 2.20 pm**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 2 MEDI 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Medi 2020, gan ei fod yn gywir.**

**3. ARFOR**

Mewn perthynas â chofnod 4 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2019, rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad yn manylu ar y newidiadau arfaethedig i'r meini prawf a'r gweithdrefnau ar gyfer cyflawni rhaglen ARFOR oherwydd yr angen i neilltuo cyllid erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**PENDERFYNWYD**

**3.1 cymeradwyo'r broses flaenoriaethu a'r cais diwygiedig ar gyfer Rhaglen ARFOR a nodwyd yn yr adroddiad;**
**3.2 cymeradwyo defnyddio £9k o gyllideb ARFOR i dreialu'r defnydd o fannau nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn trefi marchnad gwledig ar gyfer gweithgareddau siopau gwib/canolbwynt i fusnesau.**
3.3 **cymeradwyo defnyddio £10k o gyllideb ARFOR ar gyfer rhaglen bwrsariaeth Llwyddo'n Lleol fel y nodwyd yn yr adroddiad.**

**4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**5. CYMORTH ARIANNOL GAN RAGLEN ARFOR**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr**

**Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad o dan Ddeddf 1972 mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r person a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried ceisiadau am gymorth o gronfa'r rhaglen ARFOR.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o gronfa'r rhaglen ARFOR yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Cronfa'r Rhaglen ARFOR** | | |
|---|---|---|
| **Cyfeirnod y Cais** | **Yr Ymgeisydd** | **Y Dyfarniad** |
| AB1-01 | Crempog | £1,000.00 |
| AB1-02 | Pethau Pert | £1,000.00 |
| AB1-03 | Clwb yr Enfys | £1,000.00 |
| AB2-04 | TRI HQ | £1,000.00 |

________________________________ ______________________

**YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **Y DYDDIAD**